Stonewall

# AMDANO'R ADNODD YMA

**Mae'r adnodd yma wedi ei gynhyrchu gan Stonewall, elusen sydd wedi ei leoli yn y DU ac sy'n sefyll dros rhyddid, ecwiti, a potensial pob person lesbiaidd, hoyw, deurhywiol, traws, cwîar, cwestiynu ac ace (LHDT+).**

Mae'r adnodd yma wedi ei gynhyrchu gan Stonewall, elusen sydd wedi ei leoli yn y DU ac sy'n sefyll dros rhyddid, ecwiti, a potensial pob person lesbiaidd, hoyw, deurhywiol, traws, cwîar, cwestiynu ac ace (LHDT+).

Yn Stonewall, dychmygwn byd ble all pobl LHDTC+ ym mhobman byw bywydau llawn. Cawsom ein sefydlu yn Llundain yn 1989, ac yn awr rydym yn gweithio ym mhob wlad y DU a rydym wedi sefydlu partneriaethau ar draws y byd. Dros y tair degawd diwethaf, rydym wedi creu newidiadau trawsffurfiedig ym mywydau pobl LHDTC+ yn y DU, gan helpu ennill hawliau hafal o ran priodas, cael plant, ac addysg cynwysiedig.

Mae ein ymgyrchoedd yn creu newidiadau positif i'n cymunedau, ac mae ein rhaglenni newid cynaliadwy a grymusrwydd yn sicrhau bod pobl LHDTC+ yn gallu ffynnu trwy gydol ein bywydau. Rydym ni'n sicrhau bod y byd yn clywed ac yn dysgu o'n cymunedau, ac bod ein gwaith ni wedi ei seilio yn tystiolaeth ac arbenigedd.

I ddarganfod mwy amdano ein gwaith ni, ewch i www.stonewallcymru.org.uk.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

Mae Stonewall yn falch i ddarparu wybodaeth, cefnogaeth a cyngor ar cynwysedd LHDTC+; gweithio tuag at byd ble yr ydym i gyd yn rhydd i fyw. Nid yw hyn yn gyfystirio cyngor gyfreithiol, ac nid ydy'n bwriadu cymryd lle cyngor gyfreithiol ar unrhyw pwnc.

# CEFNOGI POBL LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS YN EICH CYMUNED

Canllaw ar gyfer llywodraeth leol

Stonewall
Cymru

# CYFLWYNIAD

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yng Nghymru wedi gwneud cynnydd mawr mewn sawl maes, gan gynnwys amddiffyniad mewn cyfraith rhag gwahaniaethu, diddymu Adran 28, priodasau o'r un rhyw a datblygiadau mewn cydnabyddiaeth gyfreithiol i bobl draws. Mae agweddau cymdeithasol tuag at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws wedi gwella ac mae pobl ifanc yn fwy tebygol o weld modelau rôl LHDT gweladwy y gallan nhw eu hedmygu.

Ond mae llawer mwy i'w newid. Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer pobl draws yn hen ffasiwn ac mae angen ei ddiwygio. Mae bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd yn dal i fod yn gyffredin mewn ysgolion. Mae troseddau casineb, trais a gwahaniaethu yn dal i fod yn brofiadau cyffredin i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws. Ac mae llawer yn poeni na fyddan nhw'n cael eu parchu am bwy ydyn nhw os bydd angen gofal arnynt pan fyddant yn hŷn. Dyna pam fod yn rhaid i ni barhau i weithio, nes y bydd pawb, ym mhob man, yn gallu cael eu derbyn yn ddieithriad.

## FELLY BETH ALLA I EI WNEUD?

Mae llawer o'r pethau sy'n dal i fod angen eu newid i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws o fewn gallu'r cynghorau a'r cynghorwyr drwy'r wlad. Mae cynghorwyr yn gwneud penderfyniadau am y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu – materion sy'n effeithio ar fywydau pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws bob dydd. Mae cynghorwyr hefyd yn ffigyrau dylanwadol yn eu cymunedau, ac mae ganddyn nhw gyfleoedd i godi llais dros bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws ac i newid agweddau a barn pobl.

P'un a ydych chi'n sefyll fel aelod o'r cyngor am y tro cyntaf, yn aelod sefydledig o weinyddiaeth y cyngor, neu'n gynghorydd annibynnol ar y meinciau cefn, gall un person wneud gwahaniaeth mawr yn eu cymuned.

## SEFWCH GYDA PHOBL LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS YN EICH CYMUNED – DEFNYDDIWCH EICH LLAIS I GEFNOGI CYDRADDOLDEB

# CHWARAEWCH EICH RHAN!

Codwch eich llais dros faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws, a dysgwch beth allwch chi ei wneud i'w newid.

## ADDYSG GYNHWYSOL

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu addysg i blant, gan gynnwys gwneud yn siŵr bod athrawon yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi, a phenderfynu ar beth y dylid gwario arian. Ond mae llawer gormod o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn cael eu gadael i lawr gan eu hysgolion.

Gall bwlio atal pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws rhag cyrraedd eu llawn botensial, a gall gael effaith andwyol ar eu hiechyd meddwl. Fodd bynnag, mae pedwar ymhob pump o staff ysgolion uwchradd yng Nghymru a naw ymhob deg o staff ysgolion cynradd heb gael hyfforddiant penodol ar sut i daclo bwlio homoffobaidd. *(Yr Adroddiad Athrawon, 2014).*

### BETH ALLA I EI WNEUD?

**Os ydych chi'n ymgeisydd neu'n gynghorydd, gallwch chi:**

- sicrhau bod athrawon ym mhob ysgol yn eich awdurdod lleol yn cael hyfforddiant am fwlio a sut i gefnogi disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws
- cefnogi mentrau sy'n sicrhau bod pob ysgol yn cael y canllawiau, yr hyfforddiant a'r cyfleusterau angenrheidiol i gefnogi pobl ifanc draws
- cefnogi a chynnal grwpiau a gwasanaethau ieuenctid i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn eich awdurdod lleol

**MAE 55 Y CANT O DDISGYBLION LESBIAIDD, HOYW A DEURYWIOL WEDI CAEL EU BWLIO OHERWYDD EU CYFEIRIADEDD RHYWIOL.**

**(YR ADRODDIAD YSGOL, 2012).**

**MAE 83 Y CANT O BOBL IFANC DRAWS WEDI PROFI GALW ENWAU, AC MAE 35 Y CANT WEDI PROFI CAMDRINIAETH GORFFOROL.**

**(METRO YOUTH CHANCES, 2014)**

> "Ro'n i'n cael fy mwlio llawer ar yr adeg pan nes i ddod allan. Wnaeth yr athrawon ddim byd, hyd yn oed pan oedden nhw'n clywed sylwadau cas a chlecs amdanaf fi."
>
> MELERI, 14

# TROSEDDAU CASINEB A DIOGELWCH CYMUNEDOL

Mae gan gynghorwyr lleol rôl allweddol i'w chwarae er mwyn sicrhau bod ein cymunedau yn llefydd diogel ac yn rhydd o ragfarn. Drwy weithio'n agos gyda'ch cymuned, gallwch chi godi ymwybyddiaeth o'r rôl sydd gan bob un ohonon ni i'w chwarae er mwyn taclo troseddau casineb, adeiladu cymunedau cydlynol ac annog pobl i riportio.

Rydyn ni'n dal i fyw mewn cymdeithas lle mae llawer o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn cael eu sarhau, eu plagio neu eu haflonyddu oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth draws. Mae pobl draws a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws sy'n arddel hunaniaeth Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o ddioddef trosedd casineb.

## BETH ALLA I EI WNEUD?

**Os ydych chi'n ymgeisydd neu'n gynghorydd, gallwch chi:**

- weithio gydag ysgolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau adrodd trydydd parti a'r heddlu lleol i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac annog pobl i riportio troseddau casineb
- gweithio gydag aelodau o'r gymuned a'r heddlu lleol drwy gyfarfodydd Partneriaid a Chymunedau Ynghyd (PACT) a fforymau eraill i adnabod ac ymateb i anghenion pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws a'u pryderon am ddiogelwch cymunedol

**MAE DAU YMHOB PUMP O BOBL DRAWS WEDI DIODDEF BYGYTHIADAU CORFFOROL NEU FRAWYCHU AM FOD YN DRAWS.**

**(ASTUDIAETH IECHYD MEDDWL TRAWS, 2012)**

**MAE UN YMHOB PUMP O BOBL LESBIAIDD, HOYW, A DEURYWIOL YNG NGHYMRU WEDI DIODDEF TROSEDD CASINEB NEU DDIGYWDDIAD HOMOFFOBAIDD YN Y TAIR BLYNEDD DIWETHAF.**

**(TROSEDD CASINEB, 2013)**

"Dw i wedi cael llond bol ar gael fy mwlio neu fy mrawychu ar fy stryd fy hunan pan rydw i wedi gweithio'n galed er mwyn gallu prynu fy nhŷ fy hunan. Sut mae hi'n deg fy mod i'n cael fy ngwneud i deimlo'n llai o werth?"

TOM, 33

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES

Cynghorau sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau sy'n ymwneud â lles. Mae hyn yn cynnwys gofal cymdeithasol, fel darparu gofal i bobl hŷn a chefnogi pobl anabl, darparu gwasanaethau maethu a chymorth ar gamddefnyddio a dibyniaeth ar sylweddau.

Er ei bod hi'n anghyfreithlon i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wahaniaethu yn erbyn pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws, mae llawer o bobl LHDT yn dal i gael eu trin yn wael ac yn dioddef gwahaniaethu. Gall hyn olygu nad oes gan bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws lawer o ffydd yn eu gwasanaethau gofal cymdeithasol, a gallant deimlo na fyddan nhw'n gynhwysol o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws.

**MAE TRI YMHOB DEG O AELODAU STAFF IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU WEDI CLYWED CYDWEITHWYR YN GWNEUD SYLWADAU NEGYDDOL NEU'N DEFNYDDIO IAITH WAHANIAETHOL AM BOBL LESBIAIDD, HOYW A DEURYWIOL YN Y PUM MLYNEDD DIWETHAF. MAE UN YMHOB PUMP WEDI CLYWED CYDWEITHWYR YN GWNEUD SYLWADAU NEGYDDOL NEU'N DEFNYDDIO IAITH WAHANIAETHOL AM BOBL DRAWS.**

**(AGWEDDAU AFIACH, 2015)**

## BETH ALLA I EI WNEUD?

**Os ydych chi'n ymgeisydd neu'n gynghorydd, gallwch chi:**

- ymgysylltu â phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn eich cymuned – gan wneud yn siŵr i ddod i gyswllt â phobl hŷn a phobl anabl sy'n LHDT – er mwyn deall a thaclo'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol
- sicrhau bod holl staff gofal ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol lleol yn cael hyfforddiant ar yr arferion gorau o ran darparu gofal i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws
- sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio i'r gwasanaethau maethu yn cael hyfforddiant ar sut i ddarparu gwasanaeth maethu sy'n gynhwysol o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws

**MAE TRI YMHOB PUMP O BOBL HŶN SY'N LESBIAIDD, YN HOYW NEU'N DDEURYWIOL YN TEIMLO NA FYDD GWASANAETHAU CYMORTH A GOFAL CYMDEITHASOL YN GALLU DEALL A DIWALLU EU HANGHENION.**

**(POBL LESBIAIDD, HOYW A DEURYWIOL YN DDIWEDDARACH MEWN BYWYD, 2013)**

"Petai rhaid i mi gael gofalwyr yn fy nhŷ, byddwn i mewn cyfnod bregus iawn yn fy mywyd. Mae meddwl am fod yn fy nghartref fy hun a gorfod cael cymorth gan rywun sydd â'r un rhagfarn a beirniadaeth rwy'n ei brofi yn y 'byd mawr' yn fy nychryn i."

JAMES, 55

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES

Cynghorau sy'n gyfrifol am ddarparu tai i bobl leol sydd eu hangen, gan gynnwys tai cymdeithasol a thai dros dro, a llety mewn argyfwng i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Fodd bynnag, yn aml iawn mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn cael profiadau gwael gyda'r gwasanaethau tai, gan gynnwys staff sy'n gwneud tybiaethau am eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhywedd, a phrinder gwybodaeth am y problemau y gall pobl LHDT eu hwynebu o ran tai. Gall hyn arwain pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws i fod â diffyg hyder yn y gwasanaethau tai, ac i ddisgwyl cael profiadau gwael. O gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn llawer iawn mwy tebygol o wynebu digartrefedd, a hynny'n aml oherwydd camdriniaeth, trais a chael eu gwrthod gan eu teuluoedd.

## BETH ALLA I EI WNEUD?

**Os ydych chi'n ymgeisydd neu'n gynghorydd, gallwch chi:**

- weithio gyda gwasanaethau tai lleol i sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant ar anghenion a phrofiadau pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws
- codi ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n gallu arwain at ddigartrefedd ymysg pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws, a gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i sicrhau bod holl agweddau ar fywyd teuluol a hunaniaeth pobl ifanc yn cael eu hystyried er mwyn eu cadw'n ddiogel rhag niwed

"Fe wnaeth aelod o staff awdurdod lleol chwerthin ar fy mhen i ar ôl i mi holi am wasanaethau tai cyngor."

JIM, 26

**MAE BRON I UN YMHOB DEG O BOBL IFANC LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL, TRAWS, A QUEER WEDI GORFOD GADAEL EU CARTREFI AM RESYMAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â'U CYFEIRIADEDD RHYWIOL NEU EU HUNANIAETH RHYWEDD.**

**(METRO YOUTH CHANCES, 2014)**

# CHWARAEON A HAMDDEN

Cynghorau sy'n gyfrifol am redeg canolfannau hamdden lleol, yn ogystal â gofalu am barciau a mannau gwyrdd. Fodd bynnag, mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn aml yn cael profiadau negyddol mewn amgylcheddau chwaraeon – mae hanner cefnogwyr chwaraeon yng Nghymru wedi clywed neu weld iaith neu ymddygiad sarhaus tuag at bobl LHDT yn y byd chwaraeon ac mae dros un rhan o dair o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi profi camdriniaeth mewn cyd-destun chwaraeon oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu cyfeiriadedd rhywiol tybiedig. *(Pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn chwaraeon, 2013)*.

Gall pobl draws wynebu rhwystrau penodol wrth ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Mae dros hanner y bobl draws yn osgoi mynd i'r gampfa a chyfleusterau hamdden eraill *(Astudiaeth Iechyd Meddwl Traws, 2012)*. Mae ofni aflonyddwch, diffyg preifatrwydd mewn ystafelloedd newid a phryderon am anawsterau y gallen nhw eu hwynebu wrth fynd mewn i lefydd rhywedd benodol yn gallu atal pobl draws rhag manteisio ar gyfleoedd chwaraeon a hamdden yn eu hardal leol.

## BETH ALLA I EI WNEUD?

**Os ydych chi'n ymgeisydd neu'n gynghorydd, gallwch chi:**

- gefnogi clybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol lleol i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol i roi diwedd ar wahaniaethu yn erbyn pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws mewn chwaraeon, er enghraifft drwy gefnogi ymgyrch Lasys Enfys a llofnodi Siarter Chwaraeon LHDT Cymru.
- sicrhau bod cyfleusterau hamdden lleol yn rhoi ystyriaeth ac yn diwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth sy'n lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws: yn benodol, eu bod yn glynu at agwedd dim goddefgarwch o iaith homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd mewn mannau chwaraeon a hamdden, ac yn sicrhau bod pobl draws yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r cyfleusterau hamdden.

"Fel unigolyn traws, mae'n anodd i fi gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol fel nofio oherwydd rwy'n ofni y bydd pobl yn fy ngwawdio ac yn syllu arna i. Roedd cael sesiwn nofio i bobl draws yn golygu ein bod yn rhydd i wisgo beth bynnag roedden ni ei eisiau ac i gael hwyl heb boeni am y posibilrwydd o gael pobl eraill yn ein cwestiynu ni... Rydw i wrth fy modd yn nofio, ac roedd cael cyfle i wneud hynny eto ar ôl cymaint o flynyddoedd o fod yn rhy ofnus i wneud yn brofiad o ryddhad mawr i fi."

UN O NOFWYR Y PROSIECT NOFIO TRAWS A SEFYDLWYD MEWN PARTNERIAETH GYDA NOFIO CYMRU, CANOLFAN HAMDDEN LLANTRISANT, CYMOEDD ACTIF, YOUTH CYMRU A CHWARAEON LHDT CYMRU.

# FI? YN FODEL RÔL?

## BOD YN GYNGHORYDD LHDT GWELADWY

Yn aml ni fyddwn ni'n ystyried yr effaith rydyn ni'n ei chael ar bobl eraill. Ond mae cynghorwyr yn ffigyrau gweladwy yn eu cymunedau, ac yn aml gallant gael llawer o ddylanwad ar bobl eraill.

I nifer o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws sy'n poeni beth mae pobl eraill yn ei feddwl amdanyn nhw, neu sy'n ei chael hi'n anodd i fod yn nhw eu hunain, gall modelau rôl fod yn bwysig iawn. Mae cyfle gan gynghorwyr agored lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu draws fod yn fodelau rôl gweladwy sydd eu hangen ar bobl LHDT yn eu cymunedau, gan ddangos iddyn nhw fod ffordd o fod yn chi eich hunan, o fod yn hapus ac o gael eich derbyn. A phan fyddan nhw'n gallu bod yn nhw eu hunain, yn aml iawn gallan nhw newid agweddau pobl am beth yw ystyr bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n draws, gan greu cymunedau sy'n fwy cynhwysol ac sy'n derbyn pawb.

### ALLA I FOD YN FODEL RÔL?

**Wrth gwrs! Gall unrhyw un fod yn fodel rôl – efallai eich bod chi eisoes yn fodel rôl i rywun! Er mwyn cael eich ysbrydoli, darllenwch ein canllawiau ar gyfer modelau rôl.**

**Os hoffech chi gael cymorth a syniadau ar sut i fod yn fodel rôl, ewch i weld ein rhaglen Modelau Rôl LHDT undydd.**

### GALL UN PERSON WNEUD GWAHANIAETH MAWR YN EU CYMUNEDAU.

### BETH AMDANA I? RYDW I AM WNEUD GWAHANIAETH, OND DYDW I DDIM YN LESBIAIDD, YN HOYW, YN DDEURYWIOL NEU'N DRAWS!

Mae angen cynghreiriaid ar bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws hefyd. Gall fod yn llawer haws i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws siarad am y materion sy'n effeithio ar bobl LHDT pan fydd ganddyn nhw gynghreiriaid sy'n barod i'w cefnogi. I bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws, bydd gwybod bod rhywun sy'n fodlon bod yn gefn iddyn nhw – p'un a yw rheini'n gydweithwyr, yn gynghorwyr neu'n gymdogion – yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.

Mae bod yn gynghreiriad yn golygu gwrando ar bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn eich cymuned, a'u helpu i fynnu cael eu clywed pan fyddan nhw'n cael eu hanwybyddu.

**Os hoffech chi gael cymorth a syniadau ar sut i fod yn gynghreiriad i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn eich cymuned, ewch i weld ein rhaglen Cynghreiriaid undydd!**

# YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS

Os ydych chi wir eisiau cefnogi pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn eich cymuned leol, mae'n bwysig eich bod yn gwrando ar eu profiadau.

Mae llawer o wybodaeth ar gael am brofiadau pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws o addysg, tai, a gofal cymdeithasol, ond os ydych chi wir eisiau deall, y peth gorau i'w wneud yw cwrdd â phobl LHDT yn lleol i wrando ar eu pryderon.

- EWCH I YMWELD Â SEFYDLIADAU LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS, GAN GYNNWYS GRWPIAU IEUENCTID, I DDARGANFOD BETH SYDD O BWYS IDDYN NHW.
- OS OES DATHLIAD PRIDE LLEOL YN CAEL EI GYNNAL, EWCH DRAW I DDANGOS EICH CEFNOGAETH! OS NA, BETH AM HELPU I DREFNU UN?
- SIARADWCH AM EICH YMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB I BOBL LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS AR GYFRYNGAU CYMDEITHASOL

***"Yn mynd i gwrdd â grŵp ieuenctid #LHDT @YsgolUwchradd i wrando ar eu barn! #WrthDyOchr"***

***"Yn mynd i drafod mentrau atal troseddau casineb gyda @SwyddogHeddlu – mae angen sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel yma #WrthDyOchr"***

Os ydych chi'n gynghorydd, yn ymgeisydd neu'n ymgyrchydd lleol, does dim rhaid i chi aros tan yr etholiadau lleol cyn cysylltu â chymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws – gallwch chi ddechrau nawr!

Mae cymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn eang ac yn amrywiol. Yn aml mae profiadau pobl ddeurywiol a thraws, a merched, pobl hŷn, a phobl o gymunedau Duon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig sy'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws, yn wahanol iawn. Ceisiwch glywed profiadau pobl mor amrywiol â phosibl.

Os oeddech chi'n ymgysylltu â chymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws fel rhan o'ch ymgyrch ar gyfer yr etholiadau, cofiwch gadw mewn cysylltiad â'r sefydliadau a'r unigolion y gwnaethoch chi gwrdd â nhw ar ôl i chi gael eich ethol! Bydd gan bobl ddiddordeb mewn clywed beth rydych chi wedi'i gyflawni dros bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws mewn llywodraeth leol, felly cofiwch eu diweddaru am y gwaith rydych chi'n ei wneud i greu cymunedau cynhwysol.

Pan fyddwch chi'n ymgysylltu'n rheolaidd gyda chymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws, mae'n fwy tebygol y byddan nhw am gymryd rhan yn eich plaid a'ch ymgyrchoedd. Pwy a ŵyr, efallai y byddan nhw am sefyll fel ymgeisydd ryw ddydd!

# ADNODDAU

Gallwch lawrlwytho neu archebu copïau caled o'n hadnoddau o'n gwefan yn
www.stonewallcymru.org.uk/cy/ein-gwaith/cyhoeddiadau

# STONEWALL CYMRU

Stonewall Cymru yw'r elusen cydraddoldeb ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws Cymru. Sefydlwyd ni yn 2003, ac rydyn ni'n gweithio gyda busnesau, cyrff cyhoeddus, ysgolion, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ystod eang o bartneriaid mewn cymunedau ledled Cymru i weithio tuag at ein gweledigaeth o greu byd lle gall pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws gael eu derbyn yn ddieithriad.

Stonewall Cymru
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9SB

Ffôn: 029 2023 7744
Llinell Wybodaeth: 08000 50 20 20
E-bost: info@stonewallcymru.org.uk

Gwefan: www.stonewallcymru.org.uk
Facebook: Stonewall Cymru
Twitter: @StonewallCymru

# CEFNOGI POBL LESBIAIDD, HOYW, DEURYWIOL A THRAWS YN EICH CYMUNED

Canllaw ar gyfer llywodraeth leol

Stonewall Cymru